

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 18 Ionawr 2018 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Gwen Griffith

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Owen Pierce.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Leverett, Dafydd Jones, Fiona Owen a Gabrielle Wyn.

Croesawyd Ifan Jones, swyddog Hunanlaith i annerch y Cyngor ynglŷn a'r cyfle i gydweithio ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol yn yr ardal.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2017. Cofnodwyd nad oedd cyfarfod wedi ei gynnal ym mis Tachwedd, oherwydd amgylchiadau personol y Clerc.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai-adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wîb. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori gyda Sustrans ynghylch symud yr arwydd, fel bod beicwyr yn defnyddio llwybr arall drwy'r pentref. Dal i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

3.2 Ymgynghoriad gyda'r ieuencid- swyddogion Partneriaeth Ogwen wedi ymweld â'r ddau glwb ieuencid ar gyfer y gwaith ymgynghori. Derbyniwyd adroddiad o'r ymweliadau. Penderfynwyd bydd pawb i ddarllen y ddogfen cyn y cyfarfod nesaf er mwyn trafod ymhellach.

3.3 Adnewyddu prydles Canolfan Tregarth- disgwyl adroddiadau gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a chyflwr yr adeilad.

3.4 Byrddau picnic Tregarth – adroddwyd bod y byrddau wedi eu gosod, ac eu bod yn blastig ac wedi eu prynu o Dreffynnnon.

- 3.6 Lloches bws ger Stad Ddiwydiannol Llandygai- angen ei lanhau. Y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i'w wneud.
- 3.7 Gwair hir ger Tal y Cae a Pen y Groes, Bro Derfel- Cyngor Gwynedd wedi ymweld a'r safle i drin y gwair.
- 3.8 Llwybr 59, Carreg Y Fedwen-y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i wneud y gwaith.
- 3.9 Modurdai Bro Syr Ifor – roedd y wal wedi disgyn. Contractwyr wedi bod yno i dynnu'r hen wal a thacluso.
- 3.10 Arriva- angen amserlen clir sy'n dangos pa fysiau sy'n mynd drwy Tregarth.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2018'

Cyflwynwyd: llythyr gan Partneriaeth Ogwen-manylion am y cytundeb Clercio a Datblygu Cymunedol gan y Bartneriaeth o fis Ebrill ymlaen. Penderfynwyd derbyn y telerau newydd.

Cyflwynwyd: llythyr uniaith Saesneg gan Mynediad Ceffylau Cymru ynglyn a ffyrdd ceffylau o fewn y plwyf. Penderfynwyd ymateb bod y Cyngor yn hoff o dderbyn ohebiaeth Cymraeg neu dwyieithog, ac i ofyn am fwy o wybodaeth.

Cyflwynwyd: e-bost gan Llywodraeth Cymru-Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, papur ymgynghori. Penderfynwyd bydd pawb yn ymateb fel unigolion.

Cyflwynwyd: e-bost gan Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru-ymgynghoriad ynglyn a chofrestru Meddygon Teulu yng Nghymru. Trafodwyd mai opsiwn 3 oedd y Cyngor yn ffafrio. Y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor.

Cyflwynwyd: e-bost gan Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru-gweithdy i'w gynnal yn Neuadd Ogwen 24 Chwefror 10.00-16.00 i gofnodi mân enwau Dyffryn Ogwen. Penderfynwyd hysbysu'r digwyddiad a'r dudalen Facebook y Bartneriaeth.

Cyflwynwyd: e-bost gan Gyngor Gwynedd-ynglyn a'r sefyllfa parcio ar yr A5 ger Ogwen Cottage. Trafodwyd bod parcio hollol anghyfrifol yno, y maes parcio yn ddrud a'r gwasanaeth Sherpa yn lleihau.

Cyflwynwyd: e-bost gan Partneriaeth Ogwen. Cais am rodd tuag at brosiect murlun mosaig yn Llys Dafydd. Pawb i ddarllen y cais yn fanwl ac i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

5. Gwaith y mis

- 5.1 Lloches bws Llandygai-angen côt o baent
- 5.2 Llochesi bws Ffordd Tan Rhiw-angen eu paentio
- 5.3 Lamp yn y Tynal Tywyll wedi ei malu. Y gwydr wedi cael ei ddifrodi, a'r bwlb ddim yn gweithio
- 5.4 Bin halen yn Bro Syr Ifor-angen ei lenwi
- 5.5 Diffibriliwr-penderfynwyd gofyn wrth Partneriaeth Ogwen i wneud gwaith ymchwil i gostau diffibriliwr.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – adroddwyd bod lampau'r neuadd wedi cael eu archwilio, mae nhw'n rhy gryf ac yn defnyddio gormod o egni.

Ysgol Bodfeurig- y Cyng. Richard Fraser-Williams wedi bod i'w gyfarfod cyntaf ac yn hapus i adrodd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg.

Canolfan Cefnfaes- adroddwyd bod Cyngor Gwynedd angen gwybod os oes diddordeb yn bodoli o fewn y gymuned leol mewn mabwysiadu adeilad Cefnfaes. Cyngor Cymuned Bethesda wedi datgan diddordeb, ond heb glywed dim byd pellach hyd yn hyn.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Rhagfyr.

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

APEC-archwiliad asbestos	£360.00
Llais Ogwan-hysbyseb	£18.00

9. Archeb 2018-19

Penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £21,408.

10. Rhoddion 2017-18

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn. Penderfynwyd bod y Cyngor am annog defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned, ac ein bod am wneud cais i HunanIaith i anfon eu pecyn defnyddiol i bawb oedd wedi gwneud cais am rodd.

(Datgan diddordeb pan fo angen)

Llais Ogwan	£300.00
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£300.00
Cylch Meithrin Mynydd Llandygai	£300.00
Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai	£1000.00
Clwb Gwawr Genod Pesda	£100.00
Cwmni Llechen Las	£200.00
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen	£200.00
Marie Curie	£150.00
Theatr Bara Caws	£200.00
Nant Ffrancon Brownies	£150.00

11. Penderfyniadau Cynllunio

C16/1340/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth
Codi modurdai i wasanaethu llety
gwyliau.

Penderfyniad: Caniatwyd, gydag
amodau

NP3/16/10B

Pâr o feudai yn Fferm Pentre, Nant Ffrancon, Bethesda
Newid defnydd tir a gwaith peirianyddol a thirlunio i ddarparu 5 man parcio ceir a storfa deunyddiau, lleoli dau gynhwysedd stôr (ôl-weithredol) a phwmp gwres ffynhonnell awyr, a newidiadau i'r adeilad gweithdy ar adeilad bwyta
Penderfyniad: Gwrthodwyd

NP3/16/LB10A

Pâr o feudai yn Fferm Pentre, Nant Ffrancon, Bethesda
Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol i ychwanegu uned gwresogi ffynhonnell awyr mewnol a rheiddiaduron yn yr adeilad fwyta
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C17/0891/16/LL

Mike's Garage, Unit 2, Ystad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor
Dymchwel gweithdy presennol ynghyd a chodi gweithdy (siugeneris) newydd yn ei le
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C17/0722/16/LL

The Cottage, Coed y Parc, Bethesda
Dymchwel yr adeilad presennol a chodi adeilad ar gyfer defnydd fel stiwtio yn yr ardd
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C17/0897/16/LL

Ystad Ddiwydiannol Coed y Parc, Bethesda, Bangor
Creu compownd storio allanol, ffensio diogelwch a creu 14 llecyn parcio ychwanegol
Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C17/0908/16/LL

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda
Creucwrs 4 weiren sip i gymryd lle 4 weiren sip bach wedi eu lleoli is-law y brif weiren sip, gosod cyfarpar ac is-

adeiledd cysylltiedig a llwyfannau i'r rhai presennol ac ymestyn cloddiau aciwestig presennol

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C17/0903/16/LL

Carreg y Fedwen, Sling, Tregarth
Creu canolfan ymchwil a menter iachad cysegredig gan gynnwys codi pedwar adeilad newydd, creu meysydd parcio a chodi wal ffin 2.3m o uchder (cais diwygiedig I gais dynnwyd yn ôl - C16/1158/16/LL)

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C17/0946/16/LL

Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth
Codi twr latis 18m o uchder yn dal 3 antena, 3 dysgl trosglwyddiant 300mm o ddiametr, 2 gabinet offer ar y tir a chyfarpar cysylltiedig
Penderfyniad: Cais wedi ei dynnu'n ôl

12. Ceisiadau Cynllunio

C17/1266/16/LL

Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth
Gosod mast telathrebu 17.5 metr o uchder gan gynnwys 3 antenna a 2 ddysgl darlledu ynghyd a 2 gaban offer a 1 cabinet mesurydd a gwaith atodol

Penderfyniad: Dim sylw

C17/1015/16/LL

Pen y Llyn, Mynydd Llandygai, Bangor
Creu storfa amaethyddol ar gyfer cadw Peirianau, mynedfa newydd, rhodfa ac ymestyn cwrtil preswyl presennol

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

13. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.